


Gadael Adborth/Rhoi Gwybod am Broblemau

Rydym yn croesawu adborth oddi wrth ddefnyddwyr *Archwilio* i helpu i wella ein gwasanaeth a chynnwys ein cofnodion.

Y brif ffordd y gall defnyddwyr wneud hyn yw gadael sylwadau ar gyfer eitemau pynciau perthnasol ar ein tudalen blog. Gall defnyddwyr hefyd weld sylwadau y mae pobl eraill wedi'u gadael a darllen ein hymatebion.

Cliciwch ar yr eicon 'Eich Sylwadau'  ar un o dudalennau *Archwilio*. Bydd hwn yn mynd â chi i flog yr Ymddiriedolaeth berthnasol. Yma, byddwch yn gweld tri phwnc i wneud sylw arnyn nhw:

- Dweud wrthym beth rydych yn ei wybod – a oes gennych wybodaeth newydd nad ydym wedi'i chynnwys hyd yma yn y CAH?
- Gwneud sylw ar gofnod archaeolegol – a oes gennych wybodaeth newydd i'w hychwanegu at gofnod presennol, neu a ydych wedi sylwi ar rywbeth sy'n anghywir?
- Rhoi gwybod i ni beth yw'ch barn ar *Archwilio* – a oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon? Efallai eich bod am gysylltu â ni i ddweud wrthym am eich hoff nodweddion? Dylech hefyd roi gwybod yma am unrhyw broblemau rydych yn eu cael.

Dewiswch 'Leave a Comment' am y pwnc o'ch dewis.

Llenwch eich manylion, gan gynnwys 'Name, Email' ac 'Your Response'.

Os hoffech i ni anfon negeseuon i'ch cyfeiriad e-bost ynglŷn â sylwadau eraill, ticiwch yr opsiwn perthnasol.

Neu, gallwch ddefnyddio dulliau eraill i gysylltu â ni. Mae ein manylion ar gael ar y dudalen *Cysylltu â Ni*.